



## Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo:** 10 Gorffennaf 2020

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Y cyswllt polisi:** Geraint Pugh, [gop2@aber.ac.uk](mailto:gop2@aber.ac.uk) / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 2.1

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** Mehefin 2020

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Mehefin 2022

# Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru

## Rhagymadrodd

Mae corff llywodraethu Prifysgol Aberystwyth, sef y Cyngor, wedi cymeradwyo'r cod hwn, y 'Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru' (y 'Cod'), er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986.

Rhaid adolygu'r Cod hwn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn dal i gydymffurfio â'r Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau arfaethedig o natur sylweddol gael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Caniateir i fân ddiwygiadau canlyniadol gael eu hymgorffori wrth adolygu'r Cod yn flynyddol.

Rhaid peidio â barnu bod dim byd yn y Cod hwn yn effeithio ar hawliau unrhyw unigolyn i gymryd camau yn sgil gweithredu diwydiannol cyfreithlon neu brotestio heddychlon.

## Cynnwys

1. Yr Egwyddorion Allweddol	Tudalen 3
2. Cymhwyso'r Cod	Tudalen 3
3. Y Ddeddfwriaeth Berthnasol	Tudalen 3
4. Diffiniadau	Tudalen 5
5. Cynnal Cyfarfodydd a Digwyddiadau	Tudalen 6
6. Torri'r Cod hwn	Tudalen 7
7. Deunydd Darllen	Tudalen 7
Atodiad 1: Gweithdrefn Awdurdodi Digwyddiadau Hysbysadwy	Tudalen 8
Atodiad 2: Awdurdodi Digwyddiadau Hysbysadwy – siart lif	Tudalen 11

## 1. Yr Egwyddorion Allweddol

1. Mae'r Brifysgol yn arddel egwyddor rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant o fewn y gyfraith. Gan hynny, mae'r Cod hwn, lle bo'n ymarferol, yn bwriadu hwyluso'r rhyddid i lefaru yn hytrach na chyfyngu arno, ac wrth wneud hynny, lleihau biwrocratiaeth ddiangen.
2. Ar adegau, gall rhai pobl farnu bod safbwyntiau a fynegir yn gyfreithlon yn peri tramgwydd, sioc neu fraw. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r Brifysgol yn credu mai rôl y sefydliad yw darparu cyfleoedd i herio'r safbwyntiau hynny; lledu'r drafodaeth yn hytrach na'i chulhau. Felly, wrth ystyried cynigion i gynnal Digwyddiadau Hysbysadwy, bydd y Brifysgol yn ystyried gwerth tybiedig y digwyddiad – gan ddisgwyl bod y digwyddiad yn cynnig mwy na llwyfan i wyntyllu barn ddadleuol, a'i fod yn ceisio hybu trafodaeth academiaidd a chyfnewid gwahanol safbwyntiau.
3. Mae'r Brifysgol yn credu bod cyfrifoldeb sylweddol yn gysylltiedig â'r hawl i gael rhyddid i lefaru. Nid yw hynny'n rhoi hawl i fygylyu neu fwlïo unigolion, a rhaid i unigolion gydnabod y gall fod canlyniadau i weithredu o'r fath.
4. Gall rhyddid i lefaru gael ei gyfyngu gan y gyfraith os oes angen hynny, er enghraifft, i atal troseddau, am resymau diogelwch gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd, neu i atal gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon. Bydd y Brifysgol yn cymryd deddfwriaeth o'r fath i ystyriaeth wrth gymhwyso'r Cod hwn.
5. Ochr yn ochr â rhyddid i lefaru, mae'r Brifysgol yn credu mewn rhyddid academiaidd o fewn y gyfraith. O ganlyniad, ac yn unol â Statud 9(2) o Statudau 2018 y Brifysgol, "bydd gan y staff y rhyddid i herio safbwyntiau uniongred a chyflwyno syniadau a safbwyntiau a hynny heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi na'u breiniau".

## 2. Cymhwyso'r Cod

Bydd y Cod Ymarfer hwn yn gymwys i'r canlynol:

1. Pob digwyddiad sy'n cael ei arwain, ei gynnal neu ei gynnal ar y cyd gan y Brifysgol, ni waeth lle y bo'n digwydd, gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal mewn person a / neu ar-lein (oni fyddai cydymffurfio â'r Cod hwn yn torri cyfraith y wlad lle mae digwyddiad mewn person i fod i gael ei gynnal);
2. Pob digwyddiad a gynhelir mewn mangre a ddefnyddir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, p'un a yw'r mangreoedd hynny yn perthyn i'r Brifysgol ynteu a ydynt ar y campws ai peidio; a
3. Unrhyw ddigwyddiadau eraill a gynhelir ar fangreoedd y Brifysgol, gan gynnwys y rhai a drefnir gan unigolion neu sefydliadau allanol.

## 3. Y Ddeddfwriaeth Berthnasol

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth amrywiol mewn perthynas â'r rhyddid i lefaru, gan gynnwys y canlynol:

1. Deddf Addysg (Rhif 2) 1986

1. Mae adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu Prifysgol gymryd unrhyw gamau “as are reasonably practicable to ensure freedom of speech within the law is secured for members, students and employees of the establishment and for visiting speakers”, a chyhoeddi ‘Cod Ymarfer’ i hwyluso’r gwaith o gyflawni’r gofyniad hwn.
2. Yn unol ag adran 43(8) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986, bydd unrhyw gyfeiriadau at fangreoedd y Brifysgol yn cynnwys y rhai a reolir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

2. Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Mae adran 26(1) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar brifysgolion i roi sylw dyledus i’r angen i atal unigolion penodol rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth ('Dyletswydd Prevent').

3. Deddf Cydraddoldeb 2010

Pan fo'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr yn croesawu siaradwyr neu’n cynnal digwyddiadau, mae yna botensial ar gyfer atebolrwydd cyfreithiol am wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau, aelodau a gwesteion, neu aflonyddu arnynt. Er hynny, mae angen i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 gael eu cydbwysu yn erbyn hawliau cyferbyniol, gan gynnwys y rhai a nodir mewn perthynas â rhyddid i lefaru yn Neddf Addysg (Rhif 2) 1986.

4. Y Gyfraith ar Elusennau

1. Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig (rhif 1145141). Mae'n ofynnol felly i aelodau'r Cyngor, yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwyr y sefydliad fel elusen, sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith ar elusennau, ac unrhyw gyfreithiau eraill sy'n gymwys i'r sefydliad.
2. Mae'n rhaid hefyd i ymddiriedolwyr y Brifysgol sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu mewn ffordd sy'n hybu ei dibenion elusennol (sydd wedi'u nodi yn Erthygl IV o Siarter y Brifysgol – 'Amcanion y Brifysgol'). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yna ben draw, ar adegau, ar y camau y mae'n rhesymol ymarferol i'r Brifysgol eu cymryd i sicrhau rhyddid i lefaru, lle byddai gwneud hynny'n gwyro adnoddau oddi wrth y dibenion elusennol.

5. Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Yn unol â Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng rhyddid i lefaru a dyletswyddau 'Prevent'.

#### 4. Diffiniadau

##### 1. Swyddog Awdurdodi

Mae'r Cyngor wedi penodi'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) yn Swyddog Awdurdodi i'r Brifysgol mewn perthynas â'r Cod hwn, er y caniateir i'r Swyddog Awdurdodi ddirprwyo'r awdurdod hwn yn llwyr neu'n rhannol i gyflogeion eraill i'r Brifysgol.

##### 2. Trefnydd

Defnyddir y term Trefnydd/Trefnwyr yn y Cod Ymarfer hwn i nodi'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am drefnu'r Digwyddiad Hysbysadwy dan sylw.

##### 3. Digwyddiad Hysbysadwy

1. Gellir barnu bod cyfarfod neu ddigwyddiad yn Ddigwyddiad Hysbysadwy os bydd y Trefnydd, ar ôl gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy priodol, yn ymateb yn gadarnhaol i un neu ragor o'r cwestiynau a ganlyn:

- i. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw gynnen flaenorol ynghylch y siaradwr/siaradwyr a'u safbwyntiau?
- ii. A yw'n debygol y bydd y siaradwr/siaradwyr yn methu mynd i'r cyfarfod neu'r digwyddiad neu ymadael ag ef yn ddiogel a/neu y bydd angen trefniadau diogelwch penodol?
- iii. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnig sy'n gyferbyniol eu natur, unrhyw faterion ymarferol ynglŷn ag iechyd a diogelwch a/neu unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael?
- iv. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i darfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig, a allai ddigwydd y tu mewn i'r digwyddiad neu y tu allan iddo?
- v. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i'r siaradwr/siaradwyr a'r rhai a fydd yn bresennol?
- vi. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau bod siaradwyr a chanddynt safbwyntiau eithafol a allai ddenu pobl at derfysgaeth yn cael eu herio fel rhan o'r un digwyddiad, yn unol â'r Ddyletswydd Prevent?

2. Os bydd y Trefnydd neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â threfnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad neu'n gysylltiedig ag estyn y gwahoddiad yn ansicr a ddylid pennu bod y cyfarfod yn un hysbysadwy, dylai gysylltu â'r Swyddog Awdurdodi o leiaf 30 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod neu'r digwyddiad.

3. Gall cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ddod yn rhai hysbysadwy wedyn wrth i amgylchiadau newid, er enghraifft: bwriad i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill sy'n gyferbyniol eu natur, materion ymarferol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, neu'r adnoddau sydd ar gael.
4. Cyfrifoldeb y Trefnydd yw sicrhau bod digon o hysbysiad (o leiaf 15 diwrnod gwaith) yn cael ei roi i'r Swyddog Awdurdodi o unrhyw Ddigwyddiadau Hysbysadwy y mae angen eu hawdurdodi, a hynny er mwyn rhoi amser i'r Digwyddiad Hysbysadwy arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r Weithdrefn a nodir yn Atodiad 1. Ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i unrhyw Ddigwyddiadau Hysbysadwy fynd rhagddynt pan nad yw'r Trefnydd wedi rhoi digon o hysbysiad ymlaen llaw a chyfle ar gyfer ystyriaeth ddyladwy.
5. Ni ddylai Digwyddiadau Hysbysadwy gael eu hyrwyddo hyd nes y byddant wedi'u hawdurdodi i fynd ymlaen.

#### 4. Undeb y Myfyrwyr

1. Yn unol ag Adran 43(8) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986, bydd unrhyw gyfeiriad at fangreoedd y Brifysgol yn cynnwys y rhai a reolir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.
2. Pan fo cyfarfod neu ddigwyddiad hysbysadwy i'w gynnal ar fangre a reolir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a / neu ar-lein gan unigolion neu grwpiau sy'n gysylltiedig ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, rhaid i'r mater gael ei ystyried yn unol â'r Weithdrefn a fabwysiadwyd gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar faterion o'r fath, gan sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer hwn.
3. Os ceir gwrthdaro rhwng y Weithdrefn a fabwysiadwyd gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a'r Cod Ymarfer hwn, y Cod Ymarfer a fydd yn cael blaenoriaeth.

#### 5. Cynnal Cyfarfodydd a Digwyddiadau<sup>1</sup>

1. Dim ond ar ôl trefnu'n flaenorol drwy'r Gyfadran neu'r adran wasanaeth briodol y caniateir i unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad sydd i'w gynnal ar fangreoedd y Brifysgol gael ei gynnal; neu drwy Undeb y Myfyrwyr (pan fo'r cyfarfod neu'r digwyddiad i'w gynnal ar fangre a reolir gan y corff hwnnw).
2. Mae'r Trefnwyr o dan ddyletswydd i sicrhau na fydd dim byd yn y paratodau na dim byd wrth gynnal cyfarfod neu ddigwyddiad yn torri'r gyfraith neu Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol (<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/>). Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i atal ymddygiad sy'n debygol o beri tor heddwch neu annog gweithredoedd anghyfreithlon, gan gynnwys troseddau annog terfysgaeth a gwahodd cefnogaeth i sefydliad terfysgol sydd wedi'i wahardd (yn unol â'r hyn a amlinellir yn Neddff Terfysgaeth 2006).

---

<sup>1</sup> Bydd darpariaethau'r adran hon yr un mor berthnasol, lle bo'n briodol, i ddigwyddiadau a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar-lein.

3. Mae Cadeirydd y cyfarfod o dan ddyletswydd, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl, i sicrhau bod y gynulleidfa ac unrhyw siaradwyr yn gweithredu yn unol â'r gyfraith ac â'r Cod hwn yn ystod y cyfarfod. Os ceir ymddygiad anghyfreithlon neu ymddygiad sy'n torri Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol, mae'n rhaid i'r Cadeirydd roi rhybuddion priodol, ac os parheir i weithredu'n anghyfreithlon neu i dorri'r rheolau, rhaid i'r Cadeirydd ei gwneud yn ofynnol i'r stiwardiaid neu'r staff diogelwch orfodi'r unigolion dan sylw i adael neu eu symud oddi yno.
4. Rhaid i bob digwyddiad sy'n cael ei arwain, ei gynnal neu ei gynnal ar y cyd gan y Brifysgol ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i'r sefydliad.
5. Ni chaniateir mynd ag eitemau neu wrthrychau i'r adeilad lle cynhelir y cyfarfod, na mynd â hwy i unman arall ar fangreoedd y Brifysgol na'u defnyddio yno, os bwriedir iddynt beri anaf neu ddifrod neu os gallent fod yn debygol o beri anaf neu ddifrod.
6. Rhaid gadael mangreoedd a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd neu weithgareddau yn lân ac yn daclus, ac os na wneir hynny gellir codi tâl ar y Trefnwyr am waith glanhau ac atgyweirio ychwanegol y mae'n rhaid ei wneud yn sgil hynny. Mae'n bosibl y gofynnir am daliad ymlaen llaw neu dystiolaeth o allu i dalu'r costau hyn.

## 6. Torri'r Cod hwn

1. Os bydd staff neu fyfyrwyr y Brifysgol yn torri'r gweithdrefnau hyn neu'n gwyro oddi wrthynt mewn unrhyw ffordd, caiff y Brifysgol beri bod camau disgyblu priodol yn cael eu cymryd yn erbyn y sawl sy'n gyfrifol.
2. Bydd unrhyw fyfyrwr neu aelod o staff y Brifysgol sy'n tarfu ar aelod arall o'r staff, myfyriwr neu aelod o'r Brifysgol, neu unrhyw siaradwr a wahoddir o dan weithdrefnau'r Cod hwn, neu sy'n eu rhwystro rhag arfer eu hawl i ryddid i lefaru o fewn y gyfraith ac o fewn rheolau arferol dadleuon cyhoeddus, pan fo'r unigolyn hwnnw'n cymryd rhan neu'n ceisio cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad sydd wedi'i awdurdodi gan y Brifysgol, yn torri'r Cod hwn a gellir cymryd camau disgyblu priodol

## 7. Deunydd darllen

Wrth ddatblygu'r fersiwn diweddaraf hwn o'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru, mae'r Brifysgol wedi defnyddio canllaw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "Rhyddid mynegiant: canllaw i ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr" (Chwefror 2019). Mae copi o'r cyhoeddiad hwnnw ar gael yma: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/freedom-expression-guide-higher-education-providers-and-students-unions-england>.

## Atodiad 1: Gweithdrefn Awdurdodi Digwyddiadau Hysbysadwy

1. Os bwriedir cynnal Digwyddiad Hysbysadwy, fel y'i diffinnir yn adran 3 o'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru, ar fangreoedd y Brifysgol, rhaid i'r Trefnydd gyflwyno asesiad risg ysgrifenedig i'r Swyddog Awdurdodi, o leiaf 15 diwrnod gwaith ymlaen llaw, a hwnnw'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn<sup>2</sup>:
  - i. enw a chyfeiriad y Trefnwyr ac enw a chyfeiriad un unigolyn sydd wedi'i benodi'n Brif Drefnydd i'r cyfarfod neu'r digwyddiad (y cyfeirir ato yn y Weithdrefn hon fel y 'Trefnydd');
  - ii. enw unrhyw siaradwr gwadd ac unrhyw sefydliad y bydd yn ei gynrychioli neu y bydd yn gysylltiedig ag ef tra bydd ar fangre'r Brifysgol;
  - iii. dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod neu'r digwyddiad a phryd y disgwylir i unrhyw siaradwr gyrraedd ac ymadael, ynghyd â manylion ynghylch sut y bwriedir i'r siaradwr fynd i mewn ac allan o'r adeilad lle cynhelir y digwyddiad;
  - iv. y system y mae'r Trefnydd yn bwriadu ei defnyddio ar gyfer cyfarfod neu ddigwyddiad a gynhelir ar-lein;
  - v. pwnc trafod y cyfarfod neu'r digwyddiad;
  - vi. niferoedd staff y Brifysgol, myfyrwyr neu aelodau o'r cyhoedd a ddisgwylir yn y digwyddiad;
  - vii. y camau y mae'r Trefnydd yn bwriadu eu cymryd i reoli mynediad, gan gynnwys, er enghraifft, dosbarthu tocynnau;
  - viii. sylwedd unrhyw fygythiadau i darfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig a fynegwyd i'r Trefnydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
  - ix. natur y camau y mae'r Trefnydd a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r Trefnydd o safbwynt trefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn bwriadu eu cymryd i sicrhau y diogelir rhyddid pob siaradwr i lefaru, o fewn y gyfraith. Gallai'r camau hyn gynnwys: trefniadau i sicrhau bod Cadeirydd y cyfarfod yn rheoli'r drafodaeth yn briodol, penodi stiwardiaid, a/neu roi cyfle i safbwyntiau cyferbyniol gael eu mynegi yn y cyfarfod;
  - x. natur y camau y mae'r Trefnydd a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r Trefnydd o safbwynt trefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod siaradwyr a chanddynt safbwyntiau eithafol a allai ddenu pobl at derfysgaeth yn cael eu herio fel rhan o'r digwyddiad hwnnw, yn unol â'r 'Ddyletswydd Prevent'; a
  - xi. natur unrhyw gyhoeddusrwydd arfaethedig, ac a fydd aelodau'r wasg, y teledu neu'r radio yn cael bod yn bresennol.
2. Ar ôl cael manylion y Digwyddiad Hysbysadwy gan y Trefnydd, a chael statws Coch Oren Gwyrdd i'r siaradwr allanol oddi wrth Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), lle bo

---

<sup>2</sup> Ar gyfer digwyddiadau sydd i'w cynnal yn gyfan gwbl ar-lein, bydd yr asesiad risg yn cynnwys y wybodaeth a restrir lle y bo'n briodol.



hynny'n ofynnol yn unol â'r Ddyletswydd Prevent, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi benderfynu, o fewn pum niwrnod gwaith fel rheol:

- i. y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fynd rhagddo heb ragor o gyfarwyddiadau ynghylch sut i'w gynnal, gan gadarnhau'r penderfyniad hwn i'r Trefnydd mewn ysgrifen; neu
  - ii. y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fynd rhagddo, yn amodol ar gyfarwyddiadau ynghylch sut i'w gynnal fel y'u pennir gan y Swyddog Awdurdodi yn unol â pharagraffau 8 a 9, gan gadarnhau'r penderfyniad hwn i'r Trefnydd mewn ysgrifen; neu
  - iii. am ei bod yn bosibl y caiff Cod Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru ei dorri, na ddylai'r Digwyddiad Hysbysadwy gael ei gynnal, gan gadarnhau'r penderfyniad hwn i'r Trefnydd mewn ysgrifen, sef cadarnhau'r penderfyniad a rhoi'r rhesymau drosto.
3. Os na fydd y Trefnydd yn cytuno â phenderfyniad y Swyddog Awdurdodi ynglŷn â'r Digwyddiad Hysbysadwy caiff ofyn i'r Swyddog Awdurdodi gyfeirio'r mater at y Panel Apêl. Dylai cais o'r fath gael ei wneud o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cael penderfyniad y Swyddog Awdurdodi.
  4. Pan ddaw cais i law am i'r Digwyddiad Hysbysadwy gael ei ystyried gan y Panel Apêl, rhaid cynnull cyfarfod o'r Panel Apêl fel arfer o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl y cais hwnnw.
  5. Yr Is-Ganghellor fydd yn ffurfio'r Panel Apêl, a fydd yn cynnwys tri o blith y garfan a ganlyn, un ohonynt i gadeirio: yr Arweinydd Gweithredol ar lefel y Brifysgol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth; y Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb; y Pennaeth Cymorth i Fyfywr; y Pennaeth Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd; y Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; y Pennaeth Rheoli Cyfleusterau; Rheolwr Cymorth a Chynrychiolaeth Myfyrrwr Undeb Myfyrrwr Prifysgol Aberystwyth. Wrth ffurfio'r Panel Apêl, rhaid i'r Is-Ganghellor roi sylw dyladwy i gydbwysedd rhywedd y Panel, a'r angen am aelodau ag amrywiaeth o safbwyntiau.
  6. Pan gaiff cynnig ei gyfeirio ato, rhaid i'r Panel Apêl ystyried manylion y Digwyddiad Hysbysadwy a gyflwynwyd yn wreiddiol, a chaiff benderfynu y caniateir i'r Digwyddiad Hysbysadwy fynd rhagddo yn unol â naill ai paragraff 2i neu 2ii. Er hynny, os yw'n fodlon nad oes camau rhesymol ymarferol a all gael eu cymryd i sicrhau na chaiff Cod Ymarfer y Brifysgol ar y Rhyddid i Lefaru neu Reolau a Rheoliadau'r sefydliad eu torri, caiff benderfynu bod rhaid i'r Digwyddiad Hysbysadwy beidio â chael ei arwain, ei gynnal neu ei gynnal ar y cyd gan y Brifysgol na chael ei gynnal ar ei mangreuedd.
  7. Pan fo'r Panel yn penderfynu y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fynd rhagddo, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi roi gwybod i'r Trefnydd mewn ysgrifen. Pan fo'r Panel yn awdurdodi'r cyfarfod neu'r digwyddiad, caiff osod unrhyw ofynion a ganiateir gan baragraffau 8 a 9, a rhaid i'r Swyddog Awdurdodi roi gwybod amdanynt i'r Trefnydd mewn ysgrifen.
  8. Os bydd y Panel Apêl yn penderfynu bod rhaid peidio â chynnal y Digwyddiad Hysbysadwy, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi roi gwybod i'r Trefnydd mewn ysgrifen, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.
  9. Fel rhan o'u priod ystyriaethau, mae gan y Swyddog Awdurdodi a'r Panel Apêl bŵer i amrywio unrhyw rai o'u priod ofynion unrhyw bryd os daw rhagor o wybodaeth i law am y Digwyddiad Hysbysadwy.

10. Pan fo'r Swyddog Awdurdodi'n penderfynu yn y lle cyntaf, neu pan fo'r Panel Apêl yn penderfynu, y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy arfaethedig fynd rhagddo yn amodol ar gyfarwyddiadau ynghylch sut i'w gynnal a'r lleoliad / system ar-lein, cânt gyfarwyddo'r Trefnydd ynghylch y canlynol:
- i. sut y caiff mynediad i'r Digwyddiad Hysbysadwy ei reoli'n briodol, gan gynnwys, er enghraifft, gofyniad i ddefnyddio cardiau adnabod neu docynnau, neu gofyn i fynychwyr cyfarfod ar-lein i gofrestru o flaen llaw;
  - ii. sut y caiff dull cynnal y Digwyddiad Hysbysadwy ei reoli'n briodol, gan gynnwys, er enghraifft, y ffordd y caiff unrhyw ddadl ei chynnal, neu drefn unrhyw seddi neu'r stiwardio;
- a rhaid iddynt wahodd y Trefnydd i drafod y trefniadau sydd yn eu barn hwy yn ddymunol gyda'r Swyddog Awdurdodi neu'r Panel Apêl.
11. Yn ychwanegol at yr amodau uchod, bydd gan y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel Apêl ddisgresiwn i bennu rhagor o amodau i alluogi'r Digwyddiad Hysbysadwy i fynd rhagddo, os yw hynny'n briodol, ar ôl ymgynghori â'r heddlu. Gall yr amodau hyn gynnwys:
- i. y dylid dod o hyd i leoliad mwy addas i'r Digwyddiad Hysbysadwy, neu ddefnyddio system ar-lein arall;
  - ii. y dylid datgan bod y Digwyddiad Hysbysadwy yn un cyhoeddus (a fyddai'n golygu bod modd i'r heddlu fod yn bresennol);
  - iii. trefnu bod staff y Brifysgol yn gyfrifol am yr holl drefniadau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r Digwyddiad Hysbysadwy;
  - iv. penodi aelod o'r staff yn 'Swyddog Rheoli' i'r Digwyddiad Hysbysadwy;
  - v. pennu bod rhaid i'r cyfryngau gofrestru ymlaen llaw i fod yn bresennol yn y lleoliad lle cynhelir y Digwyddiad Hysbysadwy;
  - vi. gofyn am weld unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo cyn y Digwyddiad Hysbysadwy, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau i'w dosbarthu yn y Digwyddiad Hysbysadwy.
12. Fel rheol, Trefnydd y Digwyddiad Hysbysadwy fydd yn talu costau unrhyw fesurau y bydd y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel Apêl yn gofyn amdanynt.
13. Os bydd y Swyddog Awdurdodi neu'r Swyddog Rheoli, yn ystod y cyfarfod, yn credu:
- i. y caiff rhywun ei anafu os bydd y Digwyddiad Hysbysadwy yn parhau; neu
  - ii. y caiff eiddo ei ddifrodi os bydd y Digwyddiad Hysbysadwy yn parhau; neu
  - iii. y caiff y gyfraith ei thorri;
- rhaid iddynt ohirio'r Digwyddiad Hysbysadwy.

**Atodiad 2: Awdurdodi Digwyddiadau Hysbysadwy – siart lif**

